# Catalog J.D. – a'r gwerthu trwy'r post

**Gan HUW ROBERTS**



*Llun dyfrlliw Ralph W Bardill o hen dŷ ffarm Pwlldefaid.*

BU CYFAILL imi yn aros mewn gwesty yn Oban yn ddiweddar. Difyrrwyd y gwesteion gyda'r nos gan ddigrifwr o Sgotyn a honnodd ei fod wedi ei fagu ar ynys mor unig fel mai uchafbwynt y flwyddyn oedd dyfodiad y postmon efo catalog J.D. Williams, Manchester.

Bu chwerthin mawr. Yn amlwg yr oedd nifer sylweddol o'r gynulleidfa yn gyfarwydd ag enw J.D. Williams a'i gatalog. Diau y denai'r jôc yr un ymateb oddi wrth gynulleidfa o Gymry.

Pwy oedd y Cymro hwn yr oedd ei enw yn adnabyddus mewn cymaint o gartrefi o John O'Groats i Land's End? Yn sicr yr oedd yn un o arloeswyr masnachu trwy'r post ac yn ŵr busnes Fictoriannaidd o'r iawn ryw. Wedi cychwyn o ddim, sefydlodd fusnes mawr. Bûm yn olrhain ei hanes mewn dogfennau sydd ym meddiant y teulu.

Ganed **James David Williams**, ar 17 Mai, 1856 yn Duro Cottages, St. John's Wood, Llundain. Ei fam oedd Anne, unig ferch Thomas Davies, Old St, St. Lukes, Llundain E.C., a gadwai nifer fawr o fuchod godro. Dyma'r arfer cyn i laeth ddechrau dod i Lundain ar y trên. Hanai Thomas Davies o'r Borth Sir Aberteifi, ond ni wyddai J.D. ddim o hanes ei hynafiaid yn y fro honno.

Y mae'n crybwyll, mewn nodyn hunan-gofiannol, bod gan ei fam nifer o frodyr, ond ymddengys nad ydyw yn barod iawn i'w harddel gan iddo amau eu bod wedi difa cyfoeth yr hen ddyn eu tad ar ôl i hwnnw farw. Ffolineb i resynu ato, dybiwn i, fyddai barn J.D. am rhyw oferedd anghyfrifol fel yna.

Er na wyddai hanes teulu ei fam gwyddai yn iawn am deulu ei dad (William Owen Williams, mab Pwlldefaid, Aberdaron, Sir Caernarfon) a chadwodd mewn cysylltiad â'r teulu ar hyd y blynyddoedd. Mae Mrs Jones, Ystohelyg Bach, Aberdaron (g 1901) yn cofio J.D. a'i frawd, William Owen, yn ymweld â Phwlldefaid, ac yn mynychu Capel Uwchmynydd yn eu hetiau silc.

* * *

PAN ANWYD J.D. Williams yr oedd ei dad yn gweithio fel *'shopwalker'* mewn siop ddillad yn Lissom Grove ond tua 1863/4 symudodd y teulu i Southampton. Yno y derbyniodd J.D. y rhan fwyaf o'i addysg cyn mynd, yn gynnar yn 1869 i ddechrau dysgu masnachu dillad gyda hen gyfaill ysgol i'w dad, John Griffiths Davies o Aberdaron, a gadwai siop yn Portsmouth.

Ond bu farw ei dad yn 43 oed ym mis Awst 1869 ac yn fuan wedyn taflwyd y prentis 13 oed ar y clwt. Yn 1870 bu'n gweithio yn Farnham am rhyw ddau fis. *"Yr oeddwn yno, Awst 1870, pan ddechreuodd y cardiau post dima"*, meddai.

Sylw arwyddocaol yn wyneb ei gysylltiad â masnachu drwy'r post ymhellach ymlaen.

Ar ôl Farnham aeth at Henry Jackson, Basingstoke, fel dysgwr am ddwy flynedd yn ddi-dâl. Yn ystod y cyfnod hwn ymunodd â'r Temlwyr Da. Yr oedd wedi arwyddo dirwest yn St John's Wood cyn gynted ag y gallai dorri ei enw a chadwodd at ei air gydol ei oes. *"Un o'r pethau gorau a wneuthum erioed,"* meddai, *"fe'm harbedwyd rhag llawer o demtasiynau."*

Yn Chwefror 1873, ar ddiwedd ei ddwy flynedd o brentisiaeth, atebodd hysbyseb yn y Christian World ar ddydd Iau a chyflogwyd ef ar y dydd Sadwrn i fynd at Nuttall & Sons, Ripley, Swydd Derby. Cafodd ei gôt gynffon fain gyntaf i fynd efo fo.

Un o ddulliau Nuttall o wneud busnes oedd anfon staff allan at y gweithwyr dur a'r glowyr yn y pentrefi cyfagos. Mae J.D. yn disgrifio'r drefn. *"Ar ddyddiau Llun a Mawrth, allan yn derbyn archebion a chasglu arian am y nwyddau a werthwyd y tro cynt. Dydd Mercher yn y siop yn trefnu'r archebion. Dydd Iau, allan wedyn yn dosbarthu'r nwyddau ac arddangos samplau o bethau eraill i'w gwerthu."*

Sylwodd y llefnyn dwy ar bymtheg oed ar lwyddiant y math hwn o fasnachu, gan nodi'r symiau sylweddol o arian oedd yn troi. Magwyd uchelgais ynddo i wneud yr un peth ar ei liwt ei hun. Ymhen dwy flynedd yr oedd wedi llwyddo.

* * *

YN Y cyfamser gwibiodd o swydd i swydd yn ennill profiad a cheisio gwella ei stad. Bu yn gweithio mewn dwy siop yn Sheffield a themtiwyd ef i dderbyn swydd yn Pietermaritzburg, Natal. Ond yn ystod hydref 1874 penderfynodd gynilo ei arian er gwireddu ei uchelgais.

Erbyn gwanwyn 1875 yr oedd wedi casglu £13.10s, a dyma fentro arni. Symud yn ôl i ardal Ripley ac ar ddydd Llun y Pasg y flwyddyn honno (dim Gŵyl y Banc y dyddiau hynny) cychwyn allan i'r wlad i gasglu archebion.

Erbyn nos Iau yr oedd ganddo nifer go dda ar ei lyfr ac ar y dydd Gwener i ffwrdd ag o i Sheffield at ei hen gyflogwyr i brynu'r nwyddau a'u parselu. Cario'r parseli ar ei gefn at y cwsmeriaid ar y dydd Sadwrn. Gwnaeth broffid o bron i £3! Yr oedd y fenter fawr wedi cychwyn. *'Sefydlwyd 1875'*. Cwta fis cyn ei benblwydd yn bedair ar bymtheg.

Ymhen ychydig yr oedd wedi dyfeisio a chynhyrchu faniau arbennig, celfydd iawn i gario'r nwyddau, ond buan y sylweddolodd bosibiliadau y busnes archebu trwy lythyr. Gwyddai fod Pryce Jones, Y Drenewydd, wedi arloesi'r maes, hefyd John Noble ac eraill yn Manchester. Cychwynodd yntau. Cafodd enwau a chyfeiriadau allan o restrau megis y *Catholic Directory*.

Erbyn i'r post parseli gychwyn tua 1882/3 yr oedd ganddo gryn fusnes a rhoddodd y gorau i'r faniau crwydrol. Anelai at brynu llyfrau unrhyw fusnes archebu trwy'r post oedd wedi mynd i'r wal ac wrth wneud hynny cynyddai ei restr yntau o enwau a chyfeiriadau cwsmeriaid led-led y wlad.

* * *

YN ÔL pob sôn yr oedd J.D. Williams yn ŵr hoffus a hawddgar iawn a wisgai ei het silc bob amser, hyd yn oed yn y swyddfa. Yng ngeiriau ei fab, George, sail ei lwyddiant oedd *'diwidrwydd ffyrnig'*.

Er nifered y staff, sioe un dyn oedd y busnes. J.D. oedd y cyntaf i mewn bob bore yn agor llythyrau. Wedyn rhyw awr yn cofnodi'r archebion. Onid oedd stoc ar gyfer y galw, fo fyddai'n rhedeg i'r dre i brynu chwaneg. Ymddengys fod y system ffeilio yn gomig o gyntefig, ond yn gweithio oherwydd egni brwd a diflino y perchennog.

Felly y bu hi, i bob pwrpas, hyd 1921 pryd y torrodd ei iechyd. Dim ond ar ôl hynny y ffurfiwyd cwmni cyfyngedig gyda'r pedwar mab. Bu J.D. Williams farw 19 Chwefror 1925.

Credaf fod ei wreiddiau yn Llŷn yn bwysig iddo. Yn ei gatalog yr oedd ganddo hysbyseb brethyn glas yn dangos peth o'r brethyn a adawyd ar graig yn Swnt Enlli am flwyddyn gron gyfan heb fod blotyn gwaeth.

Ef ei hun fyddai'n cynllunio'r catalog. Pam Enlli, tybed? Ni allaf fod yn sicr, ond dychmygaf ef yn ymweld â Phwlldefaid gyda'i dad ar achos marwolaeth ei daid, David Williams, mis Hydref 1863. Diau fod hydref ym mhen draw Llŷn yn ogoneddus i fachgen saith oed o ganol y ddinas. Mae gennyf ffansi i ymweliad felly adael argraff arno.

Pan glywodd fod ei gefnder am godi tŷ newydd ym Mhwlldefaid tua 1907 comisiynodd ddau ddarlun dyfrlliw o'r hen dŷ cyn ei chwalu. Yr entrepreneur llwyddiannus angen atgof o'i blentyndod pell? Atgof oedd, yn y diwedd, yn bwysicach iddo na dim arall. Fel 'Rosebud', Citizen Cane.

NODYN: Agorodd aelod arall o'r teulu siop ddillad ym Mhwllheli ac enw'r ffarm yn Llŷn – Pwlldefaid arni. Mae'r siop honno wedi cau'n ddiweddar, ond y teulu'n dal i gadw siop arall yn y dre. Mwy am yr hanes yna eto. Gol.